

**Fforwm Mynediad Ysgolion**  
**Dydd Mercher, Tachwedd 30 2016**  
**Ystafell Dwyrdd, Galw Gwynedd**

Yn bresennol: Owen Owens, Owain Dewi Hughes, Ffion Griffith, John Eifion Jones, Cyng. Beth Lawton, Cyng. Dewi Owen, John Eifion Jones, D. Kerry Parry, Rhys Wyn Parri

Ymddiheuriadau: Robert Townsend, Bethan Emyr Jones, Menai Jones, Kay O'Hanlon

**1.Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

**2.Croesawu aelodau newydd/Ethol is gadeirydd**

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Beth Lawton fel Is-gadeirydd. Bu i BL gadeirio gweddill y cyfarfod.

**3. Adroddiad mynediad ysgolion uwchradd Medi 2016**

Adroddiad eisoes wedi ei gylchredeg i bawb. Mae modd cynnig lle i bawb yn eu dewis cyntaf i'r Uwchradd, sy'n golygu nad oes problem yn codi yn y sector yma. Mae'n debyg mai Dyffryn Ogwen oedd yr agosaf i gyrraedd eu capasiti gydag un lle gwag.

Holwyd pe byddai modd gweld y ffigyrau am y 3 mlynedd diwethaf i weld beth ydi'r tueddiad.

Cytunwyd gyda hyn, ac i'w osod ar ffurf graff. Byddai modd amlygu unrhyw broblemau wedyn.

Yn y cyfarfod nesaf hefyd byddai modd dangos adroddiad yn nodi pa ysgolion uwchradd mae'r plant cynradd yn mynd iddo, yn ogystal â'r niferoedd.

Nodwyd mai dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r Uwchradd ar gyfer Medi 2017 ydi'r 16eg o Ragfyr.

Holwyd beth yw'r drefn gydag ysgolion gydol oes? Am eleni, wedi gofyn i'r blwyddyn 6 presennol wneud cais i fynd i Bro Idris, ond ar gyfer y dyfodol ni fydd angen iddynt wneud hynny gan y byddent yn dod o dan Bro Idris beth bynnag. Felly, bydd angen ceisiadau gan ddisgyblion blwyddyn 6 dalgylch Y Gader eleni.

**4. Adroddiad mynediad ysgolion cynradd Medi 2016**

Adroddiad eisoes wedi ei gylchredeg i bawb. Nifer bychan sydd wedi cael ei gwrthod eleni, sef 23 o blant. Nodwyd mai ysgolion Llanllechid, Garnedd, Maenofferen, Craig y Deryn, Y Faenol a Cae Top sydd wedi gorfod gwrthod mynediad. Nodwyd bod y ceisiadau sydd wedi cael ei gwrthod yn cynnwys ceisiadau hwyr hefyd. Roedd yr ysgolion yma eisoes wedi cyrraedd dosbarth o 30 ac felly methu derbyn mwy. Mae'r ysgolion yma'n digwydd bod mewn ardal ble mae nifer o ysgolion cyfagos felly tydi'r ffaith bod plentyn wedi cael ei wrthod ddim yn golygu bod rhaid iddynt drafailio'n bell i fynd i ysgol arall.

Mynegwyd pryder am beth sydd am ddiwydd yn y dyfodol a beth ydi amcanion ysgolion o ran niferoedd plant yn y blynyddoedd nesaf. Cytunodd ODH i ail anfon y ddogfen yma gydag enw'r ysgol yn hytrach na rhif yr ysgol.

Does dim un apêl wedi bod yn llwyddiannus. Roedd y 3 plentyn yma yn blant sydd yn byw tu allan i'r dalgylch, ond wedi apelio oherwydd bod ganddynt frodyr a chwiorydd yn yr ysgol. Nid oeddent yn llwyddiannus – mewn apêl maint dosbarthiadau nid oes gan y panel hawl i bwysu a mesur rhesymau'r rhieni dros yrru'r plant i'r ysgol yn erbyn gallu'r ysgol i dderbyn mwy o blant.

O bryd i'w gilydd mae'r Awdurdod yn gorfod talu am gludo plant, ond tydi methu derbyn plant ddim yn creu problem fawr i'r Cyngor.

**5. Diwrnodau blasu**

Wedi cael ymholiad gan Bennaeth Ysgol Gynradd parthed diwrnodau blasu. Bwriad y diwrnodau ydi i blentyn gael dod i'r Ysgol am ddiwrnod i weld cyn penderfynu gwneud cais mynediad. Mae hi fyny i'r Ysgolion unigol os ydynt yn cynnal diwrnod blasu neu beidio. Y peryg gyda hyn ydi bod plant yn cael

diwrnod blasu, ac yna ar ôl gwneud cais mynediad ein bod yn darganfod nad oes capasiti yn yr Ysgol i dderbyn y cais.

Mae pryder hefyd am Ysgolion yn ceisio denu plant o Ysgolion eraill e.e. Ysgolion siroedd eraill yn talu am gludiant i blant ddod drosodd i'w hysgol nhw. O bosib byddai hyn yn rhywbeth i'r Penaethiaid Addysg ei drafod.

Gofynnwyd i ODH holi swyddogion mynediad siroedd eraill i ofyn os ydi'r Ysgolion yn cynnal diwrnodau blasu. O bosib, un ffordd o'i chwmpas hi fyddai i beidio caniatáu sesiwn blasu hyd nes mae'r cais mynediad wedi cael ei gymeradwyo. Cytunwyd i ychwanegu mater am y diwrnod blasu yn y côd ymarfer, a'i gyflwyno ar ei newydd wedd i'r fforwm mynediad nesaf.

## **6. Mynediad i Ysgolion aml-safle**

Mae'r Awdurdod yn cael Ysgol aml safle am y tro cyntaf, sef Ysgol Bro Idris. Gydag Ysgolion aml safle, yn ôl y ddeddf, un Ysgol ydyw. Mae pa safle fydd y plentyn yn mynd iddo yn benderfyniad gan yr Ysgol ei hun. Wedi gweithio gyda'r Corff Cysgodol i gynorthwyo gyda pholisïau enghreifftiol ar sut i ddyrannu safleoedd. Mae cyhoeddiad wedi bod am leoliadau blwyddyn 5 a 6. Mae'r corff wedi mabwysiadu polisi yn seiliedig ar dalgylch y cartref. Tydi'r penderfyniad yma ddim wedi ei gyhoeddi yn swyddogol eto felly gofynnwyd i bawb gadw hyn yn gyfrinachol.

## **7. Ffoaduriaid**

Mae'r Cyngor yn rhan o'r cynllun ail leoli pobl o Syria, sy'n gynllun 5 mlynedd. Trafodwyd y trefniadau derbyn y plant yma. Diolchwyd i'r Ysgolion am dderbyn y plant yma.

## **8. Adroddiad blynyddol y fforwm**

Mae'r adroddiad i fod i mewn erbyn diwedd Tachwedd, ond gan nad ydym wedi cyfarfod ers amser nid oes adroddiad i gyflwyno. ODH wedi datgan hyn i'r Llywodraeth. Yr arferiad ydi bod cofnodion y cyfarfod yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad, a thablau ystadegau mynediad y cynradd a'r uwchradd.

## **9. Unrhyw Fater Arall**

### **Meddygol**

Nodwyd gan DWO bod y plant sy'n dioddef o glefyd siwgr yn cynyddu yng Ngwynedd. Mae pryder wedi codi mewn Ysgol uwchradd ble nad ydi athrawon yn ymwybodol bod y plant yn dioddef o'r cyflwr ac felly nid ydynt wedi cael hyfforddiant priodol. Mae Gwern ap Rhisiart ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda chynghorau iechyd parthed hyn. Mae angen sicrhau cynllun gofal iechyd i'r plant yma. Yn anffodus, does dim modd gofyn am wybodaeth feddygol wrth wneud cais am fynediad. Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn yna mae modd cael mwy o wybodaeth am y plentyn. Byddai disgwyl hefyd i rieni fod yn datgan hyn i'r Ysgol.

### **Deddfwriaeth Mynediad**

Mae'r Ddeddfwriaeth yn nodi o 2018/19 ymlaen bod yn rhaid i lythyrau sy'n cynnig lle i blant yn y cynradd ar gyfer y dosbarth derbyn fynd allan i rieni ar yr 16 o Ebrill, sydd tua 2-3 wythnos cyn mae Gwynedd wedi bod yn eu hanfon yn flaenorol. Mae'r dyddiad yma'n genedlaethol ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu bod llai o amser i brosesu ceisiadau. Bydd angen penderfynu ar ddyddiad cau newydd er mwyn sicrhau bod digon o amser i brosesu'r ceisiadau. Cynigiwyd y 1af o Chwefror ar gyfer dyddiad cau i dderbyn ceisiadau. Cytunwyd. Mae proses gyfreithiol i gyhoeddi'r dyddiad newydd yn dilyn cyfnod ymgynghori.

Mae'r system gwneud cais ar lein yn agor ar y 1af o Fedi, felly mae modd i rieni wneud cais o hynny ymlaen – nid oes rhaid iddynt ddisgwyl tan y dyddiad cau beth bynnag.

Mae Gwynedd yn draddodiadol wedi bod yn ateb ceisiadau mynediad derbyn a meithrin ar yr un diwrnod.

Ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal, ddim yn derbyn cais mwy na thymor ymlaen llaw. Dyma sydd wedi cael ei ddatgan yn y cod ymarfer drwy Gymru.

#### Addysg Gartref

Holwyd faint o blant sydd ar y gofrestr cael eu haddysgu adref gan eu rhieni. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n ddiweddar oherwydd nifer o ffactorau. Mae'n anodd gwybod yn union faint o blant sydd, does dim rhaid i rieni adael y sir wybod, 69 sydd yn sir o ran y rhai rydym ni'n gwybod amdany'n nhw ond siŵr o fod bod mwy o blant na hyn.

#### **10. Rhaglen waith y cyfarfod**

Cytunwyd i gylchredeg dyddiad y cyfarfod nesaf i bawb – ar ôl yr Etholiad fis Mai.